

Fforwm Cydraddoldeb Anabledd
Dydd Mercher 08 Rhagfyr 2016, 9.30 – 11.00am
Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Carl Sargeant, AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Paul Dear (Cadeirydd)	Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb)
Dan Biddle	Ymgynghorydd Mynediad
Lydia Boydell	Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain
Yr Athro Steve Beyer	Prifysgol Caerdydd
Wayne Crocker	Mencap Cymru
Jim Crowe	Anabledd Dysgu Cymru
Gavin Davies	Sight Cymru
Jackie Davies	Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb)
Martin Davies	Llywodraeth Cymru (Cymunedau yn Gyntaf)
Rhian Davies	Anabledd Cymru
Linda Davis	Llywodraeth Cymru (Swyddog Cyswllt Adran Gwaith a Phensiynau)
Joanna Fashan	Whizz Kidz
Michelle Fowler	Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Andrea Gordon	Guide Dogs Cymru
Julie Griffiths	Adran Gwaith a Phensiynau
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Catherine Lewis	Plant yng Nghymru
Sian Lewis (ysgrifenyddiaeth)	Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb)
Beverley Morgan	Llywodraeth Cymru (Tîm Trechu Tlodi)
Rhian Stangroom-Teel	Leonard Cheshire Disability
Jenna Trakins	Anabledd Dysgu Cymru
Owen Williams	Cyngor Cymru i'r Deillion
Richard Williams	Action on Hearing Loss Cymru

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Estynnodd Paul Dear groeso i bawb a chafwyd trafodaeth bord gron.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Tracey Good	Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
-------------	--

2. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ***Paul Dear, Llywodraeth Cymru***

- 2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.

Roedd tri cham gweithredu yn codi o'r cyfarfod blaenorol:

1. *Dyfodol Tecach i ganfasio barn aelodau'r Fforwm ynghylch a oes angen adolygu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol.*

Roedd aelodau'r fforwm yn cefnogi'r cynnig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y dylid bwrw ymlaen ag adolygiad ac ailwampiad o'r Fframwaith. Cytunwyd ar hyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Plant, sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gydraddoldeb ers hynny.

2. *Dyfodol Tecach i ychwanegu adolygiad posibl o'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.*

Cafodd Grŵp Llywio ei sefydlu a bydd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ar 12 Rhagfyr 2016. Mae llawer o aelodau'r Fforwm wedi cytuno i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio. O ganlyniad, nid yw'r adolygiad wedi'i ychwanegu at yr agenda heddiw ond bydd diweddariadau'n cael eu darparu i'r Fforwm. Clywodd yr Aelodau nad oedd cytundeb ar yr amserlenni hyd yma, ond mai'r nod oedd pennu cynllun gweithredu ar ei newydd wedd erbyn haf 2017.

3. *Dyfodol Tecach i gylchredeg dolen at Safon Ansawdd Bysiau Cymru ymhlith aelodau'r Fforwm*

Rhannwyd y manylion ag aelodau'r Fforwm ar 22 Gorffennaf 2016.

- 2.2 Dywedodd Paul Dear fod Is-adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru bellach yn rhan o'r Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant.

3. Cymunedau Cryf ***Martin Davies, Llywodraeth Cymru, Is-adran Cymunedau***

- 3.1 Eglurodd Martin sefyllfa Llywodraeth Cymru ar raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mewn datganiad i'r Cynulliad ar 11 Hydref 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fod ei fryd ar gael gwared ar raglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol wrth bennu ffordd newydd o ymdrin â heriau'r dyfodol. Esboniodd Martin fod y sylw hwn wedi arwain at lawer o gyhoeddusrwydd gwallus yn dweud bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud i ddod â'r rhaglen i ben.

- 3.2 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant eisiau penderfynu ai Cymunedau yn Gyntaf oedd y ffordd orau o wasanaethu cymunedau o hyd. Felly, byddai rhaglen ymgysylltu eang iawn yn cael ei chynnal cyn dod i unrhyw benderfyniad.

- 3.3 Cydnabuwyd y byddai unrhyw newidiadau i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael effaith ar yr unigolion hynny sy'n defnyddio Cymunedau yn Gyntaf ac yn gweithio iddi; yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan y rhaglen; y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar ran Cymunedau yn Gyntaf; ac ar yr adeiladau cymunedol sy'n cael eu defnyddio at y diben hwn.
- 3.4 Dechreuodd y broses ymgysylltu ym mis Hydref gydag arolwg ar-lein a fydd yn parhau ar agor tan 15 Ionawr 2017. Mae 1400 o ymatebion eisoes wedi dod i law. Fodd bynnag, nid yw arolwg ar-lein yn ddigonol ac mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i ymgysylltu â phobl a rhwydweithiau ar hyd a lled y wlad, nid dim ond rhai sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae dipyn o ohebiaeth wedi cyrraedd hefyd, a gaiff ei defnyddio yn y broses ddadansoddi.
- 3.5 Gan fod arolwg ar-lein yn cael ei ystyried yn fwy addas i unigolion, datblygwyd holiadur ar wahân er mwyn i sefydliadau anfon eu hymateb hwy i Lywodraeth Cymru.
- 3.6 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu canfod yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer sefydliadau cynrychioliadol.
- 3.7 Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd. Mae dau ddigwyddiad arall yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau'r cyhoedd, a'r gobaith yw y bydd pobl o ardaloedd nad ydynt yn rhai Cymunedau yn Gyntaf yn eu mynychu er mwyn casglu barn pobl o'r tu allan i'r rhaglen. Bydd un grŵp yn y Gogledd a'r llall yn y De/De-orllewin.
- 3.8 Esboniodd Martin nad dyfodol Cymunedau yn Gyntaf yn unig oedd prif bwyslais y prosesau ymgysylltu cyhoeddus, ond sut allai Llywodraeth Cymru helpu cymunedau cryf i'r eithaf.
- 3.9 Dywedodd Martin fod y broses ymgysylltu yn dal i fynd rhagddi ac anogodd pawb i gymryd rhan.
- 3.10 Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r Fforwm:
- Mae angen fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn Pobl Ifanc o'r arolwg ar-lein. Cadarnhaodd Martin fod Llywodraeth Cymru'n gobeithio gweithio gyda sefydliadau fel Young Wales i ymgysylltu â phobl ifanc.
 - A yw'r arolwg ar-lein yn casglu ystadegau am anabledd, ac yn fwy penodol, ar y modd mae pobl yn cyfathrebu. Cadarnhaodd Martin fod yr arolwg yn gofyn sawl cwestiwn am nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anabledd. Tra byddai modd cyfri faint o bobl oedd wedi nodi'u hunain yn anabl, ni fyddai modd dadansoddi hynny ymhellach e.e. er mwyn nodi pobl â nam ar y synhwyrau. Er hynny, byddai'r wybodaeth yn anghyflawn gan fod llawer o'r ymatebwyr wedi penderfynu peidio â llenwi'r cwestiynau hyn.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb) i rannu'r holiadur ymhlith aelodau'r Fforwm

[Ymunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r cyfarfod ar y pwynt hwn, ond gofynnodd i Paul Dear barhau i'w gadeirio.]

4. Engage to Change

Jim Crowe a Jenna Trakins, Anabledd Dysgu Cymru

- 4.1 Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi cael £10 miliwn dros 5 mlynedd trwy gynllun grant "Getting Ahead 2" y Gronfa Loteri Fawr er mwyn hybu gobeithion gyrfaol pobl ifanc Cymru ag anabledd dysgu a/neu anawsterau dysgu, gan gynnwys awtistiaeth. Datblygwyd y grant mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn ateb y blaenoriaethau o gefnogi plant a phobl ifanc.
- 4.2 Dechreuodd prosiect Engage to Change ym mis Ebrill 2016. Bydd yn gweithio gyda 800 o gyflogwyr ledled Cymru i helpu 1,000 o bobl ifanc i feithrin sgiliau cyflogaeth trwy leoliadau gwaith â thâl sy'n para rhwng 6 a 12 mis. Y nod yw creu a chynnal cyfleoedd gwaith hirdymor i bobl ifanc.
- 4.3 Bydd y cynllun yn helpu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), sydd ag anabledd dysgu a/neu anhawster dysgu, gan gynnwys anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD), y mae swydd tymor hir yn opsiwn realistig os bydd cymorth dwys yn cael ei ddarparu.
- 4.4 Mae Anabledd Dysgu Cymru yn arwain consortiwm o sefydliadau i ddarparu'r prosiect – gan gynnwys asiantaethau cyflogaeth â chymorth fel Elite ac Agoriad Cyf, y rhaglen interniaeth ryngwladol Project Search, y sefydliad hunan eiriolaeth All Wales People First, a Phrifysgol Caerdydd.
- 4.5 Bydd y prosiect yn annog 800 o gyflogwyr i gael eu hyfforddi ac i ddarparu lleoliadau gwaith â chymorth a chyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl ifanc.
- 4.6 Bydd 18 o lysgenhadon o blith pobl ifanc a gymerodd ran yn y rhaglen. Byddant yn 'hyrwyddwyr prosiect' ac yn ei hybu ar hyd a lled Cymru.
- 4.7 Rhoddir pwyslais cryf ar waddol y rhaglen, gan gynnwys polisi a newid diwylliant. Bydd angen casglu data parhaus gan bobl ifanc, darparwyr gwasanaethau a chyflogwyr er mwyn llywio comisiynwyr a llunwyr polisïau ar beth sy'n gweithio, a ddim yn gweithio.
- 4.8 Darparu swyddi go iawn am gyflog go iawn – dyna fydd y pwyslais. Defnyddir cynllun Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau, lle bo modd, er mwyn rhoi cymorth priodol i bobl anabl a'u cyflogwyr. Roedd cyfyngiadau i gymorth gan Mynediad i Waith gan ei fod yn gweithredu'n wahanol yng Nghymru e.e. yn achos prentisiaethau.
- 4.9 Cododd aelodau'r Fforwm y pwyntiau canlynol:
 - Pwysigrwydd newid agweddau tuag at gyflogi pobl anabl. Cafodd hyn ei gydnabod yn bwynt hollbwysig o ran sicrhau cyfleoedd gwaith ystyrlon a hirdymor a rhagwelir y bydd yn rhan o waddol y rhaglen.

- Gellir herio'r ffyrdd mae'r cynllun Mynediad i Waith yn gweithredu'n wahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr ac a oes modd herio'r gwahaniaethau hyn. Er enghraifft, nodwyd bod y cynllun yn caniatáu i rai ar raglen interniaeth yn Lloegr gael hyfforddwr swyddi, ond nid yw hynny ar gael yma yng Nghymru. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw penderfynu beth ellir ei gael drwy'r gronfa.
- Pwysigrwydd sicrhau pecynnau unigol i blant a phobl ifanc yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Cynghorwyd i aelodau'r Fforwm ddweud eu dweud wrth Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ac i gyfrannu yn ystod y camau pwyllgor wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb) i ddarparu manylion cyswllt Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, i Jim Crowe er mwyn ystyried y gwaith sy'n cael ei gwblhau ar brentisiaethau.

5. Polisi Cyflogaeth Llywodraeth Cymru *Dr Beverley Morgan, Llywodraeth Cymru*

- 5.1 Dywedodd Beverley wrth y grŵp fod Cynllun Cyflogadwyedd wrthi'n cael ei ddatblygu ac y bydd yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Bydd y Cynllun yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn ailwampio cymorth cyflogadwyedd i unigolion parod i weithio, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad waith, er mwyn ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gael a chadw swydd barhaus.
- 5.2 Cydnabuwyd bod cyflogadwyedd yn golygu llawer mwy na dim ond sgiliau a chymwysterau. Mae'r cynllun yn cydnabod bod angen mabwysiadu dull cyfannol, sy'n ceisio nodi a mynd i'r afael ag anghenion unigolion a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu o ran ennill a chadw swydd a chamu ymlaen yn eu gwaith.
- 5.3 Mae lefelau cyflogaeth bron ar ei lefel uchaf, ond mae anweithgarwch economaidd yn uchel o hyd hefyd. Tynnwyd sylw at y cyswllt rhwng cyflogadwyedd a thlodi, gan fod pobl ddi-waith yn aml yn byw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae tlodi mewn gwaith yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru.
- 5.4 Bydd y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd rhoi cymorth wedi'i deilwra i unigolion. Pwysleisiwyd yr angen am system symlach a llawer mwy cydlynus gan fod y system bresennol yn gymhleth, gyda llawer o raglenni cyflogadwyedd ar wahân mewn lle.
- 5.5 Bydd y Cynllun yn cyflwyno fframwaith gweithredu gan ddefnyddio tystiolaeth o beth sy'n gweithio a dysgu o raglenni cyfredol fel Esgyn a Cymunedau dros Waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ledled adrannau a chyda phartneriaid i ddatblygu'r fframwaith hwn.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i anfon dolen gyswllt i'r Datganiad Llafar ar Gyflogadwyedd a gyflwynodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth mewn cyfarfod llawn ar 15 Tachwedd 2016.

6. Papur gwyrdd 'Improving Lives': Work, Health & Disability' *Linda Davis, Llywodraeth Cymru*

- 6.1 Dywedodd Linda wrth y grŵp fod Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU wedi'i gyhoeddi ar 31 Hydref 2016. Mae yna sesiwn ymgynghori eang iawn ar y Papur Gwyrdd a ddaw i ben ar 17 Chwefror 2017. Mae cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn wrthi'n cael eu cynllunio ar draws Cymru.
- 6.2 Mae Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n cydweithio'n agos trwy rwydwaith Cymru Well er mwyn llunio ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad mewn meysydd iechyd. Mae'r Papur Gwyrdd yn darparu cyfle i bwysleisio astudiaethau achos ac arfer dda ledled Cymru. Cytunwyd mai rhan hollbwysig o'r ymgynghoriad oedd clywed yn uniongyrchol gan hawlwyd ar feysydd o'r Papur Gwyrdd sy'n effeithio arnyh nhw.
- 6.3 Dywedodd Linda wrth y grŵp fod grŵp trawsbleidiol ar anabledd (APPGD) wedi cyhoeddi adroddiad 'Ahead of the Arc' **sy'n archwilio sut gall llywodraeth y DU gadw at ei haddewid i haneru'r bwlch cyflogaeth pobl anabl ac sy'n cynnig sawl argymhelliad.**

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i rannu dolen gyswllt i'r Papur Gwyrdd, y digwyddiadau ymgysylltu ac adroddiad 'Ahead of the Arc' i aelodau'r Fforwm

7. Cynllun Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau Julie Griffiths, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

- 7.1 Rhaglen yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y DU gyfan yw 'Mynediad i Waith' sy'n darparu cymorth i bobl anabl er mwyn eu helpu i gael gwaith a pharhau mewn gwaith. Mae'r cymorth hwn yn helpu pobl anabl i oresgyn y rhwystrau i weithio, ac yn cynnwys darparu cyfarpar arbenigol, mynediad i adeiladau, costau teithio a gweithwyr cymorth.
- 7.2 Nid yw llawer o gyflogwyr fawr callach am y cynllun o hyd na'r cymorth y gall ddarparu wrth gyflogi person anabl.
- 7.3 Mae'r Canolfannau Byd Gwaith wrthi'n codi ymwybyddiaeth ei staff o'r rhaglen, gan gynnwys hyfforddwyr gwaith. Rhagwelir y bydd sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal gyda grwpiau eraill, gan gynnwys cyflogwyr.
- 7.4 Dywedodd Julie fod hyfforddiant am namau cudd yn cael ei ddarparu i hyfforddwyr gwaith y Canolfannau Gwaith hefyd. Mae pecyn cymorth wrthi'n cael ei ddatblygu i gynorthwyo staff, a bydd yn cael ei hyrwyddo'n eang ar draws y rhwydwaith Canolfannau Gwaith.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i rannu manylion cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghyd â dolen gyswllt i daflen Mynediad i Waith (DWP) a thaflen Disability Rights UK.

8. Trafodaeth

- 8.1 Rhannwyd profiad personol unigolyn o'r cynllun Mynediad i Waith â'r grŵp. Mae'r unigolyn angen gweithiwr cymorth a theithio sy'n ei alluogi i barhau i weithio. Yn ystod proses adnewyddu Mynediad i Waith, clywodd yr unigolyn – sydd â nam ar y

golwg – fod y meini prawf ar gyfer cadarnhau manylion ei nam wedi newid, a bod angen llythyr meddygol gan ei feddyg teulu bellach fel rhan o'r broses adnewyddu. Roedd angen llythyr meddygol i nodi sut y gallai'r unigolyn dan sylw ymdopi yn y gwaith, ond nid oedd y meddyg teulu'n teimlo y gallai farnu hyn. Roedd gofyn i'r unigolyn dalu am y llythyr hwn hefyd. Dywedodd yr unigolyn wrth y grŵp, pe bai'n colli ei weithiwr cymorth yna ni fyddai'n gallu parhau mewn swydd.

- 8.2 Croesawodd aelodau'r Fforwm y cymorth y gallai'r cynllun Mynediad i Waith ei ddarparu, ond yn poeni bod y broses ymgeisio ac asesu ei hun yn creu rhwystrau i bobl anabl. Gofynnwyd am hyfforddiant i staff Mynediad i Waith ddeall yn well y problemau sy'n wynebu pobl anabl, bod ffurflenni ar gael mewn sawl fformat a'i bod yn datblygu'n fwy o raglen person-ganolog.
- 8.3 Gofynnodd aelodau'r Fforwm i'r Cynllun Cyflogadwyedd gynnwys proses casglu data gadarn a chynhwysfawr, er mwyn nodi a thargedu anghenion grwpiau penodol.
- 8.4 Roedd aelodau'r Fforwm yn cydnabod bod y cynllun Engage to Change yn gam mawr ymlaen i bobl ag anableddau dysgu. Pwysleisiwyd yr angen am gynlluniau tebyg ar draws pob maes anabledd.
- 8.5 Roedd aelodau'r Fforwm yn poeni bod pobl anabl yn aml yn angof wrth drafod y bwlch cyflogaeth. Roedd Papur Gwyrdd 'Improving Lives' yn seiliedig ar fodel meddygol o anabledd, sy'n rhwystr ynddo'i hun.
- 8.6 Nodwyd bod ystadegau da ar gael ar lefel y DU, ond bod angen gwneud mwy i ddatblygu setiau data ar gyfer Cymru.
- 8.7 Unwaith eto, mynegwyd pryderon ynglŷn â gwahaniaethau'r cynllun Mynediad i Waith yn Lloegr a Chymru, a bod aelodau'r Fforwm yn poeni bod rhai o'r gwahaniaethau hynny'n cael effaith negyddol ar Gymru.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i ddarparu briff ar y cynllun Mynediad i Waith i Ysgrifennydd y Cabinet, gan gyfeirio'n benodol at y gwahaniaethau rhwng y cynllun yn Lloegr a Chymru, fel interniaeth.

Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu rhagor o wybodaeth i Ysgrifennydd y Cabinet am yr achos penodol a godwyd yn ystod y Fforwm, am anawsterau'r unigolyn yn sgil newidiadau i'r broses adnewyddu.

9. Unrhyw fater arall / dyddiad y cyfarfod nesaf

- 9.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i bawb am eu presenoldeb ac am gymryd rhan. Ategodd yr angen i gysylltu a chydlynu'r cynlluniau amrywiol ledled Cymru gan bwysleisio'r Cynllun Cyflogadwyedd fel ffordd o gyflawni hyn. Hefyd, nododd y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hwyluso dulliau newydd o weithio ar hyd a lled Cymru – dulliau y gellir eu defnyddio er mwyn cyflawni hyn.
- 9.2 Awgrymodd aelodau'r Fforwm drafnidiaeth fel eitem posibl ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf.
- 9.3 Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin/Gorffennaf 2017. Dyddiad i'w gadarnhau.